



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Adolygiad o Brosiect Safle Ffocws

Cydamseru cylchred oestrws mewn gwartheg bîff

Llŷr a Peredur Hughes

Fferam Gyd

Rhosgoch

Amlwch

Sir Fôn



Paratowyd gan:

Rhidian Jones

Ar ran

Kite Consulting

Dunston Business Village

Dunston

Swydd Stafford

ST18 9AB

Dyddiad: Rhagfyr 2018

Rhif ffôn: 07889 182 364

E-bost: rjlivestocksystems@btinternet.com



Cynnwys

1.0	Crynodeb	1
1.1	<i>Manylion y fferm</i>	<i>1</i>
1.2	<i>Amcanion allweddol y prosiect</i>	<i>2</i>
1.3	<i>Llwyddiannau'r prosiect.....</i>	<i>2</i>
1.4	<i>Manylion y Prosiect</i>	<i>2</i>
1.5	<i>Sylwadau'r Ffermwr – Llŷr Hughes</i>	<i>1</i>
2	Adolygiad o'r Busnes.....	1
2.1	<i>Data gwaelodlin y fuches.....</i>	<i>1</i>
2.2	<i>Effaith posibl y prosiect ar y busnes</i>	<i>1</i>
3	Adolygiad o'r prosiect	2
3.1	<i>Dadansoddiad SWOT.....</i>	<i>2</i>
3.2	<i>Buddion i fusnesau defaid/cig eidion eraill yng Nghymru.....</i>	<i>2</i>
3.3	<i>Cysondeb â nodau strategol y sectorau defaid/cig eidion</i>	<i>3</i>
4	Effaith ar y diwydiant.....	3
4.1	<i>Effaith ar fusnesau unigol.....</i>	<i>3</i>
4.2	<i>Effaith ar y diwydiant ehangach</i>	<i>3</i>
4.3	<i>Effaith ar themâu trawsbynciol a blaenoriaethol Llywodraeth Cymru</i>	<i>4</i>
5	Tîm y Prosiect	4

1.0 Crynodeb

1.1 Manylion y fferm

- Fferm 450 erw (180 ha). Llŷr Hughes a'i dad Peredur sy'n ei ffermio.
- 120 o fuchod sugno. Buchod Limousin pur a phedigri, ynghyd â buchod sydd wedi'u bridio trwy gynyddu canran y gwaed Limousin a lleihau canran y gwaed bridiau llaeth yn y croesiad yn raddol dros nifer o genedlaethau. Byddant yn lloea yn y gwanwyn a'r hydref. Gwerthir eu lloei fel gwartheg stôr neu loi wedi'u diddyfnu. Cyflwynwyd rhaglen ymhadu artiffisial yn 2016 ar gyfer lloea yn 2017 a pharhawyd â hynny yn 2017 ar gyfer lloea yn 2018.
- Diadell o 630 o ddefaid sy'n groesiad o Suffolk a Miwl sy'n wyna'n gynnar.
- 65-70 erw bob blwyddyn o gnydau â'r – gwenith a cheirch.



Llŷr Hughes

Amcanion y Busnes:

- Cynyddu allbwn y fferm trwy werthu lloei trymach yn iau i ganiatáu i ragor o fuchod bridio i gael eu cadw
- Bydd hyn yn caniatáu i'r gorbenion a ddaw i ran y busnes i gael eu defnyddio'n well.
- Lleihau baich llafur trwy dynhau cyfnodau lloea.
- Gwella effeithiolrwydd rheolaeth trwy reoli nifer fwy o griwiau o loi ar sail oedran neu bwysau. Bydd hynny'n fuddiol hefyd o ran dewis heffrod i fridio.
- Enillion genetig cyflymach yn y fuches oherwydd byddai rhai epil benywaidd yn cael eu cadw fel buchod amnewid. Mae eu henillion pwysau gwell yn golygu ei bod yn haws cyflawni pwysau targed ar gyfer gofyn tarw a gellir gwneud hynny'n rhatach

1.2 Amcanion allweddol y prosiect

- Gweithredu a gwerthuso rhaglen cydamseru cylchred oestrws ac Ymhadu Artiffisial ar fferm fuchod sugno yng Nghymru.
- Cyflawni cyfnod lloea tynnach er mwyn defnyddio llafur yn well.
- Gwerthuso costau/buddion y system gan gynnwys arbedion llafur, enillion gwella a chostau amnewid a chynnal a chadw teirw.
- Gwneud defnydd o ddeunydd genetig o ansawdd well i wella enillion pwysau byw a sicrhau fod y lloi sy'n deillio o hynny yn haws eu gwerthu.

1.3 Llwyddiannau'r prosiect

- Rhaglen gydamseru a ymhadu artiffisial llwyddiannus dros ddwy flynedd
 - 2016-17, roedd 42 buwch o blith 55 yn gyflo - 76.4%
 - 2017-18, roedd 42 buwch o blith 51 yn gyflo - 82.3%
- Cyfnod lloea tynnach â 75% yn bwrw llo yn ystod y bythefnos gyntaf
 - Pwysau cyfartalog uwch ar adeg diddyfnu/gwerthu – amcangyfrifwyd fod hynny'n 30kg yn uwch ac yn werth £72
 - Galluogi lloi i gael eu rheoli'n well fel grŵp tynnach
 - Mae'n caniatáu i lafur, adeiladau ac adnoddau eraill gael eu cynllunio'n well
 - Mae'n caniatáu i loi mwy gael eu didol borthi'n gynharach
- Diwrnod agored ar 22 Mai 2018 i amlygu llwyddiant y rhaglen
- Cafwyd sawl erthygl a diweddariad ar y prosiect gan Cyswllt Ffermio
- Cyflawni prisiau marchnad uwch yn sgil gwartheg o ansawdd uwch yn ogystal â'r enillion o ran pwysau.

1.4 Manylion y Prosiect

Gweithdrefnau cyn yr arbrawf

Er bod gan y fuches hanes da o ffrwythlondeb yn gyffredinol o ran nifer y lloi a fagwyd a'i phatrwm lloea, ni chafodd unrhyw fuchod oedd â hanes o anawsterau lloea neu gyfraddau beichiogi salach eu cynnwys yn yr arbrawf. Diben hyn oedd sicrhau'r cyfraddau beichiogi gorau. Fodd bynnag, roedd hynny'n golygu nad oedd y buchod eraill a gafodd eu paru'n naturiol yn grŵp cymharol cynrychiadol.

Cyn cydamseru ac ymhadu artiffisial, cafodd y buchod eu pwyso a mesurwyd sgôr eu cyflwr corfforol a chofnodwyd eu data gan ddefnyddio templed cofnodi ar ffurf taenlen. Ni ddefnyddiwyd buchod yr ystyrid eu bod yn rhy denau.

Y rhaglen gydamseru ac ymhadu artiffisial

Mike Christie o grŵp milfeddygol Lambert, Leonard a May oedd yr ymgynghorydd a'r clinigwr ym mlwyddyn gyntaf yr arbrawf.

Roedd y rhaglen cydamseru yn cynnwys y canlynol:

- Diwrnod 1 Mewnosod CIDR a rhoi 2.5ml o Veterlin
- Diwrnod 7 Tynnu'r CIDR a chwistrellu 2ml o Prelim am 6yb
- Diwrnod 9 Chwistrellu 2.5ml o Veterlin ar adeg yr ymhadu artiffisial cyntaf
- Diwrnod 9 Ymhadu artiffisial cyntaf ar adeg benodol am 2yp
- Diwrnod 10 Ail ymhadu artiffisial ar adeg benodol rhwng hanner dydd a 2yp

Mae ymhadu artiffisial ar adeg benodol yn ddidrafferth ac mae'n osgoi'r angen i ganfod buchod sy'n gofyn tarw, rhywbeth sy'n mynd ag amser. Mae Llŷr Hughes wedi ymgymhwyso i wneud ymhadu artiffisial ei hun, ac fe wnaeth y gwaith ymhadu artiffisial yn achos buchod oedd yn ailofyn yn 2017, ar ôl i dechnegwyr Genus wneud yr ymhadu artiffisial cyntaf ar adeg benodol. Yn 2018, fe wnaeth Llŷr Hughes yr holl waith ymhadu artiffisial ei hun. Fe wnaeth y rhaglen cydamseru bara 12 awr yn achos y cyfnod paru cyntaf. Gwnaed y gwaith ymhadu artiffisial yn achos buchod oedd yn ailofyn trwy arsylwi'r buchod hynny. Mae hynny'n mynd ag amser, a rhagwelir y caiff paru naturiol ei ddefnyddio yn y dyfodol yn achos unrhyw fuchod sy'n ailofyn.

Tarw a ddefnyddiwyd

Y tarw a ddefnyddiwyd oedd Derrygullinane Kingbull, sy'n darw Limousin. Mae'r tarw hwn yn un o deirw Limousin bridfa Genus, ond mae'n eiddo i Mr Hughes, a phrynodd y tarw yn 2016 am 10,800 gini.

Rheoli yn ystod y rhaglen

Yn ystod cyfnod cydamseru ac ymhadu artiffisial y rhaglen, cadwyd y buchod mewn caeau yn agos at y cyfleusterau trin a thrafod da byw. Bwriad hyn oeddhwyluso unrhyw waith trin a thrafod da byw.

Bellach, mae gan y sied wartheg newydd a adeiladwyd yn 2017-18 groesfariau sy'n hunan-gloi, ac mae hynny'n golygu fod tasgau yn haws fyth. Mae cyfleusterau trin a thrafod rhagorol yn bwysig yn achos rhaglenni fel hon, oherwydd mae amseru'n hollbwysig, a bydd angen ystyried diogelwch da byw a'r sawl sy'n eu trin a'u trafod hefyd.



Mae croesfariau sy'n hunan-gloi yn hwyluso rheoli

Rheoli lloea

Roedd dyddiadau lloea yn hysbys (yn gyffredinol, gan gofio y gallai hyd y cyfnod cyfebru amrywio), felly roedd modd cynllunio'n fwy gofalus at y cyfnod lloea a gwneud defnydd gwell o lafur a chyfleusterau. Wrth i'r cyfnod lloea fynd rhagddo, cynyddodd maint ar adeg genedigaeth y lloi a genhedlwyd trwy ymhadu artiffisial, a chredir y gallai cyflymu'r genedigaethau hyn fod yn opsiwn yn y dyfodol. Mae EBV y tarw ar gyfer pwysau ar adeg y geni, rhwyddineb y lloea a hyd y cyfnod cyfebru hefyd yn is na'r cyfartaledd. Efallai fod hynny wedi bod yn ffactor dylanwadol.

Mae angen nifer ddigonol o lociau lloea wrth gydamseru buchod, ac mae'n bwysig sicrhau hefyd eu bod yn cael eu glanhau rhwng genedigaethau.

Roedd y lloi yn fywiog ar adeg eu geni ac fe wnaeth y mwyafrif sugno heb gymorth. Roedd hynny'n wir hefyd yn achos lloi'r buchod a gafodd eu paru'n naturiol, sy'n awgrymu fod maeth a chyflwr corfforol buchod wedi cael eu rheoli'n dda, gan arwain at loi cryf a bywiog a digonedd o golostrwm.

Rheoli Lloi

Cafodd y lloi eu geni o fewn cyfnod tynn, felly roedd modd cadw golwg arnynt er mwyn paratoi ymlaen llaw at unrhyw anawsterau iechyd a allai ddigwydd. Cawsant eu pwysu a'u digornio, a chafodd y lloi gwryw eu hysbaddu pan oeddent yn bythefnos oed. Cafodd y buchod eu brechu rhag BVD ac IBR, a'u drensio: cawsant eu troi allan o'r sied pan oedd glaswellt ar gael a phan oedd cyflwr y tir yn caniatáu hynny.

Cychwynnwyd didol borthi'r lloi ar ddechrau mis Awst i roi hwb ychwanegol i gyfraddau twf. Mae didol borthi yn ddull cost effeithiol o gyflawni hyn, oherwydd mae cyfraddau trosi porthiant gwartheg ifanc yn dda, a bydd enillion ariannol yn sgil cynnydd yn y pwysau byw, uwchlaw cost y porthiant. Yn ychwanegol, mae'n ddefnyddiol hefyd i sicrhau fod rwmenn y llo yn ymgyfarwyddo â dwysfwydydd, a fydd yn bwysig yn dilyn diddyfnu a phan gânt eu gwerthu i fferm arall. Fe wnaiff hynny hefyd leihau unrhyw arafu o ran twf yn dilyn diddyfnu, a dylai olygu llai o straen i'r llo ar adeg diddyfnu a helpu i atal niwmonia.

Costau cysylltiedig

2016-17

- Milfeddyg a chyffuriau £26.33 y fuwch
- Costau ymhadu artiffisial £18.00 y fuwch
- Llafur y fferm £4.30 y fuwch
- Cyfanswm £48.63 y fuwch

2017-18

- Cyfanswm £24 y fuwch

(ymhadu artiffisial a wnaed gan y ffermwr ei hun, semen sy'n eiddo i'r fferm, llafur y fferm)

Mae Cyswllt Ffermio yn amcangyfrif y byddai defnyddio 2 darw stoc yn costio tua £63 y fuwch, felly gellir arbed £14.37 y fuwch (seiliedig ar ddata'r flwyddyn gyntaf). Yn ychwanegol, amcangyfrifir fod y lloi yn pwysu 30kg yn fwy ar adeg diddyfnu, yn sgil y cyfnod lloea tynn a chynnar a'r deunydd genetig gwell, ac mae hynny'n werth £72 ychwanegol fesul llo. Roedd y ffaith eu bod yn pwysu cymaint yn golygu y gellid eu gwerthu ar adeg diddyfnu, felly nid oedd rhagor o gostau i'r fferm. Ar y llaw arall, efallai bydd angen i loi a gaiff eu geni yn ddiweddarach

gael eu cadw am gyfnod hirach, gan arwain at ragor o gostau porthi a chostau eraill nes byddant yn pwyso digon i'w gwerthu (neu efallai bydd yn rhaid eu gwerthu'n ysgafnach).

Daliwch sylw: nid yw hwn yn arbrawf y gellir ei ailadrodd yn union, oherwydd roedd y gwartheg a gafodd darw potel wedi cael eu dethol yn ofalus, mewn cyflwr da, a heb unrhyw hanes blaenorol o anawsterau lloea. Yn ychwanegol, mae'r tarw a ddefnyddir at ddibenion ymhadu artiffisial yn eiddo i'r fferm, felly nid oes unrhyw gostau prynu semen. Mewn gwirionedd, gellid defnyddio'r tarw ar gyfer paru naturiol hefyd, felly byddai'r deunydd genetig yn cael ei defnyddio i gyfebru'r rhan fwyaf o'r fuches, gan leihau elfen genetig y budd (ond heb elwa o gyfnod lloea tynnach a chynharach).

Canlyniadau ffisegol

2016-17

- 55 buwch wedi cael ymhadu artiffisial
- 42 wedi cyfrebru trwy ymhadu artiffisial
- Cyfradd llwyddiant o 76.4%
- Pwysau cyfartalog o 294kg ar adeg gwerthu (lloi gwryw a benyw)
- Pris cyfartalog o £820 y llo neu £2.79/kg

2017-18

- 51 buwch wedi cael ymhadu artiffisial
- 42 wedi cyfebru trwy ymhadu artiffisial
- Cyfradd llwyddiant o 82.3%
- Bustych yn pwyso 330kg ar adeg eu gwerthu, am bris o £920 neu £2.78/kg
- Heffrod yn pwyso oddeutu 280kg am bris o £780

1.5 Sylwadau'r Ffermwr – Llŷr Hughes

Mae gwerthu lloi ar adeg eu diddyfnu yn rhan o'r cynllun busnes ers blynyddoedd lawer. Mae pwysau ac unfurfedd lloi ar ddiwrnod eu gwerthu yn hanfodol er mwyn sicrhau'r elw mwyaf ac i gadw cwsmeriaid rheolaidd. Mae amrywiad yn oedran a maint yn effeithio'n sylweddol ar werth lloi ar ddiwrnod eu gwerthu, sy'n dangos pwysigrwydd cysondeb a phatrwm lloea tynn.

Felly, yn ein barn ni, er mwyn cynyddu cynhyrchedd y fenter buchod sugno i'r eithaf, cydamseru oedd y cam nesaf i gynyddu nifer y lloi a werthir ar adeg eu diddyfnu, a sicrhau fod ffrwythlondeb a chyflwr corfforol buchod yn cael eu rheoli'n dda gan uchafu cyfraddau cyfebru.

Mae cyfamseru hefyd yn gwneud y defnydd gorau o lafur a'r lle sydd ar gael yn y siediau ar adegau penodol o'r flwyddyn.

2 Adolygiad o'r Busnes

2.1 Data gwaelodlin y fuches

Ni wnaed unrhyw feincnodi ariannol yn ystod y prosiect.

2.2 Effaith posibl y prosiect ar y busnes

Mae'r prosiect wedi dangos y gall buddsoddi mewn rhaglen cydamseru ac ymhadu artiffisial arwain at enillion ariannol sylweddol yn ogystal â hwyluso defnydd mwy effeithiol o lafur ac adnoddau. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r enillion hyn, mae'n rhaid rhoi sylw i fanylion i sicrhau llwyddiant, ac efallai fod angen rhywfaint o fuddsoddiad mewn offer a chyfleusterau trin a thrafod hefyd. Mae'r cynnydd yn lefel yr hwsmonaeth yn ffactor cadarnhaol a allai ddylanwadu ar agweddau eraill o'r busnes, megis rheoli tir glas a chnydau.

Yn fwy arwyddocaol efallai, pe gellid gwerthu rhagor o loi yn gynharach, er enghraifft, ar adeg diddyfnu, yna gellid cynyddu nifer y buchod magu er mwyn sicrhau fod gorbenion yn gweithio'n galetach a sicrhau fod deilliannau'r fferm yn cynyddu. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â thueddiadau tebygol yn y dyfodol o orffen pesgi gwartheg pan fyddant yn pwyso llai, oherwydd gellir gwerthu lloi pan fyddant yn iau a gellir eu porthi â dogn i orffen eu pesgi yn gynt heb unrhyw golled yn eu cyflwr, a bydd hynny'n gwella effeithiolrwydd cyffredinol cynhyrchu cig eidion ac yn lleihau'r ôl troed carbon fesul kg o gig eidion ar yr un pryd.

Mae criwiau mwy gwastad o loi yn golygu manteision sylweddol o ran rheolaeth, o'u genedigaeth hyd at adeg eu gwerthu. Caiff unrhyw driniaethau eu cynllunio'n benodol ar gyfer criwiau sy'n fwy gwastad eu maint ac mae dewis grwpiau i'w gwerthu yn haws. Yn ychwanegol, bydd heffrod amnewid yn fwy gwastad eu maint a gellir eu dewis o blith lloi sy'n cael eu geni'n gynnar, sy'n golygu y bydd hi'n haws cyflawni pwysau gofyn tarw a chynnal ffrwythlondeb y fuches a sicrhau fod y patrwm lloea yn dynnach yn y dyfodol.

Ceir buddion hefyd o ran Bioddiogelwch oherwydd bydd angen prynu llai o deirw, a buddion o safbwynt gwelliannau genetig hefyd, oherwydd mae safon y teirw a gynigir gan gwmnïau ymhadu artiffisial fel arfer yn llawer uwch na'r hyn y gallai fferm o'r maint hwn eu prynu. Yn yr achos hwn fodd bynnag, roedd y tarw yn eiddo i'r busnes fel rhan o fuches gwartheg Limousin pedigree'r busnes. Gallai nifer lai o deirw ar y fferm fod yn llesol o safbwynt Iechyd a Diogelwch hefyd.

3 Adolygiad o'r prosiect

3.1 Dadansoddiad SWOT

CRYFDERAU	• Dull arloesol o reoli bridio • Elwa'n llawn ar y deunydd genetig rhagorol sydd eisoes ar gael • Gall gynyddu Allbwn fferm trwy fridio nifer fwy o wartheg o safon uwch i'w gwerthu • Gwella Bioddiogelwch
GWENDIDAU	• Byddai angen buddsoddi rhywfaint mewn cyfleusterau – dylid gwerthuso hyn trwy'r ffordd arferol bob amser, gan ystyried buddion o ran costau, gwella effeithiolrwydd ac Iechyd a Diogelwch
Cyfleoedd	• Cynyddu'r defnydd o gyfamseru ac ymhadu artiffisial yn raddol i gynnwys y fuches gyfan, cynyddu GM y fferm a sicrhau bod gorbenion yn gweithio'n galetach • Gwella Bioddiogelwch ymhellach trwy leihau'r angen i brynu teirw byw • Cysylltiadau â ffermwyr sy'n gorffen pesgi gwartheg neu brynwyr rheolaidd i sicrhau rhagor o arbedion effeithiolrwydd yn y gadwyn cynhyrchu cig eidion
BYGYTHIADAU	• Brexit ac ansicrwydd hynny o ran cynhyrchu da byw • Achosion o dywydd garw yn effeithio ar y rhaglen cydamseru

3.2 Buddion i fusnesau defaid/cig eidion eraill yng Nghymru

O safbwynt KT, mae'r prosiect hwn eisoes wedi bod yn fuddiol, yn cynnwys y diwrnod agored ar y fferm a'r erthyglau ac ati. Fe wnaiff llawer o fusnesau ffermydd da byw yng Nghymru elwa o ganfyddiadau'r prosiect. Mae'r egwyddorion, y technegau a'r offer ar gael i unrhyw gynhyrchwyr gwartheg sugno.

Gallai ffermwyr eraill elwa o ddefnyddio'r technegau sy'n cael eu hamlinellu yn y prosiect hwn. Yn aml iawn, bydd gan fuchesi gwartheg sugno bychan fwy o 'rym teirw' na'r hyn sy'n ofynnol o ran maint y fuches. Bydd angen i lawer o deirw fod yn "Siôn bob swydd", h.y. cael eu defnyddio at bob diben, ond mewn gwirionedd, mae'r gofynion o ran teirw i fridio heffrod amnewid a theirw i fridio gwartheg i'w lladd yn wahanol. Mae defnyddio cydamseru ac ymhadu artiffisial yn ffordd rwydd a chost effeithiol o ddatrys hyn.

O safbwynt amgylcheddol, bydd cadw mwy o stoc a chynyddu cyfanswm cilogramau'r cig a gynhyrchir yn lleihau'r ôl troed carbon am bob kg a gynhyrchir. Yn achos y ffermwr, fodd bynnag, y mater pwysicaf fydd cynyddu Allbwn a sicrhau fod gorbenion presennol yn gweithio'n galetach.

3.3 Cysondeb â nodau strategol y sectorau defaid/cig eidion

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Cig Coch Cymru, 2015-2020, mewn perthynas â'r canlynol yn benodol:

- **Blaenoriaeth Strategol “Gwella effeithlonrwydd cynhyrchu (ac felly cynyddu ansawdd y cyflenwad) tra’n cynnal amgylchedd a thirwedd Cymru”**
- **Amcan Strategol 2- “Cynyddu cyfraniad sector cig coch Cymru at Gynnyrch Amaethyddol Cymru” – yn benodol Camau Gweithredu**
 - **“Datblygu rhaglenni newydd sy’n canolbwyntio ar fusnes i wella rhoelaeth, effeithlonrwydd a phroffidioldeb busnesau cig coch Cymru”**
 - **“Sefydlu dulliau a fydd yn uchafu cynnyrch o systemau glaswellt a lleihau’r ddibyniaeth ar borthiant a brynir (a fewnforir)”.**
 - **Hysbysu/addysgu’r diwydiant am arbed costau a chadwraeth, defnyddio ynni a dŵr yn effeithlon, dulliau o leihau gwastraff a gwella gwybodaeth, natur agored a thryloywder**
 - **Sicrhau gweithgareddau trosglwyddo technoleg newydd a all ddangos atebion ymarferol ar gyfer y diwydiant i annog pobl i fabwysiadu technoleg newydd**
 - **Cyflawni gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth sy’n hybu arloesedd ac yn annog pobl i fabwysiadu arferion gorau**

Mae llwyddiant y prosiect wedi sicrhau fod y busnes yn fwy proffidiol yn sgil cynnydd yn allbwn y fferm heb gynydd sylweddol mewn gorbenion. Mae'r buddsoddiad wedi arwain at enillion cadarnhaol blyneddol a chaiff y buddsoddiad ei ad-dalu’n gyflym. Bydd ôl-troed carbon y busnes am bob cilogram o gig eidion a gynhyrchir yn lleihau, a bydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau hinsawdd wleidyddol ansicr yn well.

4 Effaith ar y diwydiant

4.1 Effaith ar fusnesau unigol

Mae'r ffigurau a gyfrifwyd yn dangos arbediad o £14.37 y f uwch o'i gymharu â gorfod prynu tarw arall, sy'n gyfystyr â chost o £1437 mewn buches o 100 o fuchod. Yn ychwanegol, amcangyfrifir fod y cynnydd ym mhwsau'r anifeiliaid a'r gwelliant yn eu hansawdd sy'n deillio o'r broses yn werth £72 ychwanegol y llo, sef 30kg ychwanegol am £2.40/kg. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, cafwyd £2.78/kg am y lloi, a gallai hynny gynyddu'r enillion hyn ymhellach i dros £80 y pen.

4.2 Effaith ar y diwydiant ehangach

Ceir llawer o ddiddordeb ar hyn o bryd mewn gwella effeithiolrwydd ac enillion buchesi buchod sugno. Mae cadw nifer o deirw mewn buchesi sydd â llai na 100 o fuchod yn gost sylweddol i'r diwydiant, a gellid lleihau hynny trwy fabwysiadu rhaglen o ymhadu artiffisial.

4.3 Effaith ar themâu trawsbynciol a blaenoriaethol Llywodraeth Cymru

Y Newid yn yr Hinsawdd

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i lywodraeth y DU sicrhau lleihad o 80% yn lefelau allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddiaeth 1990 erbyn 2050 (ceir targed hefyd o sicrhau lleihad o 11% yn y nwyon hyn erbyn 2020). Mae gan amaethyddiaeth gyfraniad pwysig i'w wneud at sicrhau'r gostyngiadau hyn. Nid yw'r ôl troed carbon wedi'i gyfrifo eto. Fodd bynnag, trwy gynyddu allbwn y fferm, bydd Fferam Gyd wedi llwyddo i leihau ei heffaith ar yr hinsawdd.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Bydd gwella'r cyfleusterau trin a thrafod sy'n ofynnol i wneud y math hwn o waith yn gwella Iechyd a Lles yr anifeiliaid. Yn ychwanegol, bydd gallu rheoli da byw mewn grwpiau tynnach ar sail oedran, pwysau neu gategori (lloi a buchod magu) yn golygu yn gwella eu maeth a'u lles.

Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r buddion ariannol sydd eisoes wedi'u hamlinellu yn golygu fod y math hwn o waith yn fuddiol ac yn fwy deniadol i ffermwyr iau ac i newydd-ddyfodiaid.

Yr Amgylchedd Naturiol

Gallai'r system hon ganiatáu i'r tir gorau ar fferm gynhyrchu rhagor, ac felly, gellid defnyddio mannau llai cynhyrchiol y fferm i weithredu mesurau amgylcheddol.

Trechu Tlodi

Pan fydd ffermydd yn fwy proffidiol, yn aml iawn, caiff yr elw ychwanegol ei ail-fuddsoddi yn y busnes. Bydd hyn yn arwain at ragor o arian yn cael ei wario'n lleol mewn busnesau sy'n cyflenwi ffermydd, gan arwain at gadw swyddi mewn cymunedau lleol.

Iechyd a Diogelwch

Fe wnaiff Iechyd a Diogelwch wella yn sgil lleihad yn nifer y teirw ar ffermydd ac yn y gwaith trin a thrafod a symud cysylltiedig. Yn ychwanegol, bydd gwella'r cyfleusterau trin a thrafod da byw sy'n ofynnol i hwyluso'r math hwn o waith yn golygu buddion y tu hwnt i'r gwaith cydamseru ac ymhadu artiffisial.

5 Tîm y Prosiect

Llŷr a Peredur Hughes, y ffermwyr sy'n cyfranogi yn y prosiect

Emyr Owen a Gwawr Hughes, Cyswllt Ffermio/Menter a Busnes

Mike Christie, grŵp milfeddygol Lambert, Leonard a May